Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Senedd:
Adroddiad Blynyddol 2021-22

Mehefin 2022




www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg Comisiwn y Senedd:

## Adroddiad Blynyddol 2021-22

Mehefin 2022

www.senedd.cymru



# Cynnwys

**1. Cyflwyniad ... 7**

Rôl ac aelodau'r Pwyllgorau ... 7

Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau ... 10

**2. Casgliadau a Sylwadau ... 16**

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 ac archwiliad allanol ... 16

Archwilio mewnol ... 17

Rheoli risg ... 19

Fframwaith sicrwydd ... 21

**3. Edrych Tua'r Dyfodol ... 22**

**4. Casgliadau ... 23**

**Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd ... 24**



# 1. Cyflwyniad

**1.** Mae Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd (y Pwyllgor) yn falch o gyflwyno'r adroddiad hwn ar ei waith yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.

**2.** Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar waith y Pwyllgor mewn perthynas â fframweithiau'r Comisiwn o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol, llywodraethu a sicrwydd. Mae'n tynnu sylw at y canlynol: cylch gwaith y Pwyllgor; y gwaith a gyflawnwyd a'r casgliadau a sylwadau cysylltiedig, yr hyn y mae'r Pwyllgor yn bwriadu canolbwyntio arno yn 2022-23, a'r casgliadau cyffredinol.

**3.** Er gwaethaf yr heriau oherwydd etifeddiaeth y pandemig COVID-19, mae gwaith sylweddol wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod adrodd, fel yr amlinellir yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn[1]. Mae wedi cynnwys, ymhlith pethau eraill:

- y trosglwyddiad llwyddiannus i'r Chweched Senedd, yn dilyn yr Etholiadau ym mis Mai 2021;
- yr etholiad a gweithgarwch cynnar ail Senedd Ieuenctid Cymru;
- cydgrynhoi cynlluniau ar gyfer ffyrdd o weithio yn y dyfodol, gan gynnwys y strategaeth ystadau; ac
- trawsnewid yn llwyr y trefniadau adrodd a monitro ar gyfer seiberddiogelwch.

**4.** Mae'r Pwyllgor wedi canmol y Comisiwn ar y camau cyntaf cadarn a reolwyd yn dda yn dilyn y pandemig. Ni fu unrhyw darfu ar drafodion ffurfiol y Pwyllgor hwn yn ystod y flwyddyn, gyda'r holl gyfarfodydd yn mynd rhagddynt yn ôl y bwriad mewn fformat rhithwir. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi nodi parhad holl weithgarwch llywodraethu a sicrwydd y Comisiwn heb unrhyw darfu.

## Rôl ac aelodau'r Pwyllgorau

**5.** Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â'u cyfrifoldebau o ran rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. Rôl gynghori sydd gan y Pwyllgor, ac nid oes ganddo bwerau

1 https://senedd.cymru/comisiwn/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-y-comisiwn/

gweithredol. Mae'n rhoi cyngor ar ba mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw sicrwydd, gan gynnwys o archwiliadau mewnol ac allanol. Mae hyn yn cynnwys adolygu polisïau cyfrifyddu ac archwilio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu. Mae aelodau'r Pwyllgor hefyd yn darparu mewnwelediad gwerthfawr o'u gwybodaeth a'u profiad o ran edrych tua'r gorwel ar gyfer risgiau a materion posibl. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor (**atodiad 1**) a'r **flaenraglen waith** wedi'u llunio'n unol â chanllawiau Trysorlys Ei Mawrhydi.

**6.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn asesu annibyniaeth archwilwyr allanol, a maent yn derbyn sicrwydd gan Archwilio Cymru drwy'r Strategaeth Archwilio Flynyddol. Mae cynrychiolwyr Archwilio Cymru hefyd yn mynychu holl gyfarfodydd y Pwyllgor a sesiwn breifat flynyddol gyda'r Pwyllgor. At hynny, mae Archwilio Cymru a Chyfarwyddwr Cyllid y Comisiwn yn cael ôl-drafodaeth â'r Pwyllgor ar ôl y sesiwn flynyddol ar gyfer gwersi a ddysgwyd. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Pwyllgor hefyd yn gweithio'n agos gydag archwilwyr mewnol wrth iddynt chwarae rhan strategol allweddol yn rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd rheolaethau mewnol y Comisiwn.

**7.** Mae **aelodau presennol** y Pwyllgor (Comisiynydd a thri Chynghorydd Annibynnol, y mae un ohonynt yn Gadeirydd) wedi'u hamlinellu isod ac wedi'u cyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

- Robert Evans, Cadeirydd a Chynghorydd Annibynnol
- Suzy Davies AS, Comisiynydd (cyfarfod diwethaf ym mis Mehefin 2021)
- Ken Skates AS, Comisiynydd (cyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd 2021)
- Ann Beynon OBE, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor
- Aled Eirug, Cynghorydd Annibynnol ac Aelod o'r Pwyllgor

**8.** Yn ystod y flwyddyn bu un newid i'r aelodaeth, gyda Ken Skates AS yn cymryd lle Suzy Davies AS fel Aelod Comisiynydd y Pwyllgor yn dilyn Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.

**9.** Yng nghyfarfod mis Ebrill, cyflwynodd Suzy ei myfyrdodau ar ei haelodaeth o'r Pwyllgor ers 2016 a diolchodd i'w aelodau a'i swyddogion am fod mor groesawgar a chefnogol. Diolchodd y Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, i Suzy am ei chyfraniad, ei mewnwelediad a'i her adeiladol yn ystod ei thymor fel aelod o'r Pwyllgor. Roedd Suzy hefyd yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis

Mehefin yn rhinwedd ei swydd fel Comisiynydd gan nad oedd y Comisiynwyr newydd wedi'u penodi.

**10.** Penodwyd Ken Skates AS yn Gomisiynydd gyda chyfrifoldeb dros y gyllideb a llywodraethu, gan gynnwys aelodaeth o'r Pwyllgor hwn, ym mis Mehefin 2021. Croesawodd y Pwyllgor ef yn ffurfiol yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd.

**11.** Mae cael Comisiynydd yn aelod o'r Pwyllgor yn rhoi mewnwelediad gwleidyddol gwerthfawr i'w ystyriaethau, yn enwedig ynghylch gwaith craffu ariannol a chyllidebol y Comisiwn a'i broffil risg. Mae'n darparu linc i'r Comisiwn gyda diweddariadau a chopïau o'r cofnodion a ddarperir ar ôl bob cyfarfod o'r Pwyllgor. Mae hefyd yn ddefnyddiol clywed adborth uniongyrchol ar ymddangosiadau mewn sesiynau craffu ar waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Senedd o safbwynt Comisiynydd.

**12.** Roedd y canlynol hefyd yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn:

- Manon Antoniazzi – Prif Weithredwr a Chlerc/Swyddog Cyfrifyddu;
- Nia Morgan – Cyfarwyddwr Cyllid;
- Dave Tosh – Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd (cyfarfod diwethaf ym mis Tachwedd 2021);
- Ed Williams – Cyfarwyddwr Adnoddau'r Senedd (cyfarfod cyntaf ym mis Chwefror 2022);
- Siwan Davies – Cyfarwyddwr Busnes y Senedd;
- Arwyn Jones – Cyfarwyddwr Cyfathrebu ac Ymgysylltu;
- Gareth Watts – Pennaeth Archwilio Mewnol/Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd;
- Ann-Marie Harkin – Cyfarwyddwr Gweithredol, Archwilio Cymru;
- Gareth Lucey – Rheolwr Archwilio, Archwilio Cymru;
- Kathryn Hughes – Clerc Pwyllgor/Rheolwr Risg a Llywodraethu; a
- Buddug Saer – Dirprwy Glerc Pwyllgor.

Daeth swyddogion eraill y Comisiwn i gyfarfodydd yn ôl yr angen hefyd.

**13.** Mae'r Pwyllgor yn cyhoeddi cofnodion ei gyfarfodydd ar **wefan** y Comisiwn. Mae Cadeirydd y Pwyllgor hefyd yn mynd i gyfarfod y Comisiwn i gyflwyno Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor cyn diwedd tymor yr haf.

## Crynodeb o weithgareddau ac ystyriaethau

**14.** Nid yw parhad cyfarfodydd rhithwir drwy gydol y flwyddyn wedi cael unrhyw effaith ar y sylw a roddir i flaenraglen waith y Pwyllgor, sydd wedi parhau i adlewyrchu'r adrannau cyfrifoldebau a gofynion gwybodaeth a amlinellir yng Nghylch Gorchwyl y Pwyllgor (**atodiad 1**). Lle gwnaed penderfyniadau gan y Pwyllgor na fyddai eitemau'n cael sylw yn y cyfarfodydd ffurfiol, dosbarthwyd papurau y tu allan i'r pwyllgor mewn modd amserol a chyfrannodd yr aelodau drwy gyfathrebu'n uniongyrchol â swyddogion perthnasol. Yn ôl yr angen dilynwyd hyn gyda'r cyfle i drafod unrhyw bwyntiau a gododd yn y cyfarfodydd ffurfiol.

**15.** Ym mhob cyfarfod rhoddodd y Cyfarwyddwr Adnoddau ddiweddariadau corfforaethol manwl i'r Pwyllgor ar ymateb parhaus y Comisiwn i'r pandemig. Roedd y diweddariadau hyn yn cynnwys manylion am ystyriaethau gan grŵp Cydnerthedd a Monitro Covid (CRAM) y Comisiwn a sefydlwyd yn 2020 i asesu a monitro effaith newidiadau i Reoliadau COVID-19. Darparodd y grŵp, a barhaodd i gyfarfod yn wythnosol drwy gydol y flwyddyn, gyngor i'r Bwrdd Gweithredol, a llywiodd benderfyniadau amserol ganddo. Llywiodd hefyd drafodaethau gyda'r Llywydd a Fforwm y Cadeiryddion mewn perthynas â busnes ffurfiol y Senedd. Croesawodd y Pwyllgor y diweddariadau rheolaidd hyn a pharhaodd i ganolbwyntio'n benodol ar effaith penderfyniadau a threfniadau ar les staff. Mae manylion am y gwerthusiad o'r gwersi a ddysgwyd o'r pandemig i'w gweld yn Natganiad Llywodraethu'r Comisiwn a gyhoeddwyd fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2021-22[2].

**16.** Sylwodd y Pwyllgor sut y parhaodd y Comisiwn i ddangos safonau uchel o lywodraethu drwy gydol y pandemig, er gwaethaf yr amgylchiadau heriol.

**17.** Fel y nodwyd yng *Nghyflwyniad* yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor yn cydnabod cyflawniadau'r Comisiwn yn ystod y cyfnod adrodd. Mae wedi cael briffiadau a diweddariadau rheolaidd gan uwch-swyddogion mewn cyfarfodydd ffurfiol a thu allan i'r pwyllgor ar feysydd gwaith allweddol ac wedi darparu her

[2] **https://senedd.cymru/comisiwn/adroddiad-blynyddol-a-chyfrifon-y-comisiwn/**

adeiladol, yn enwedig ar y risgiau cysylltiedig. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys diweddariadau ar y canlynol:

- rheoli risgiau a chyflawni'r amrywiol feysydd gwaith mewn perthynas ag Etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021 - roedd hyn yn cynnwys papur manwl ar gyflawni'r cyfnod pontio i'r Chweched Senedd, a'r gwersi a ddysgwyd o hyn, a gyflwynwyd mewn cyfarfod ffurfiol gan uwch-swyddogion;
- ymatebion parhaus i'r dirwedd fygythiadau newidiol sy'n ymwneud â seiberddiogelwch – gweler paragraff 19 isod a'r adran *Casgliadau a Sylwadau* o'r adroddiad hwn;
- cynlluniau ar gyfer Diwygio'r Senedd, a'r risgiau, heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- gwariant gyda chyflenwyr Cymreig, gan gynnwys papur a gyflwynwyd gan y Pennaeth Caffael mewn cyfarfod ffurfiol;
- datblygu strategaeth ystadau'r Comisiwn gan y Cyfarwyddwr Adnoddau mewn cyfarfodydd ffurfiol a sesiwn friffio ar wahân ar y strategaeth "Ffyrdd o Weithio", sydd bellach yn ymgorffori'r strategaeth ystadau, a gyflwynwyd i aelodau'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2022; ac
- y prosiect i uwchraddio system gyllid y Comisiwn - roedd hyn yn cynnwys papur manwl yn canolbwyntio ar liniaru risgiau a gyflwynwyd gan y Cyfarwyddwr Cyllid mewn cyfarfod ffurfiol.

**18.** Manylion am rôl y Pwyllgor o ran adolygu a chynghori ar: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ac archwiliad allanol, gan gynnwys y Datganiad Llywodraethu; archwiliad mewnol; rheoli risg; a gellir dod o hyd i'r fframwaith sicrwydd yn yr adran *Casgliadau a Sylwadau* o'r adroddiad hwn. Mae'n werth tynnu sylw at y canlynol yn y crynodeb hwn:

- nid oedd unrhyw faterion sylweddol yn deillio o'r archwiliad allanol o gyfrifon y Comisiwn;
- roedd y cynllun archwilio mewnol, a oedd wedi'i addasu'n flaenorol i ganolbwyntio ar roi sicrwydd amser real ar faterion yn ymwneud â Covid wedi dychwelyd i'r rhaglen archwiliadau mwy traddodiadol;

- parhaodd uwch-reolwyr y Comisiwn i fonitro a rheoli ei risgiau corfforaethol yn weithredol, gan adnewyddu ei broffil risg yn sylweddol mewn ymateb i risgiau a oedd yn dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn; ac

- er gwaethaf effaith barhaus anochel y pandemig ar rai o'i ddangosyddion perfformiad, parhaodd y Comisiwn i sicrhau safonau uchel o wasanaeth a pherfformiad ar gyfer cyflawni busnes y Senedd, fel y dangoswyd yn ei Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol Corfforaethol.

**19.** Roedd yr adran *Edrych Tua'r Dyfodol* o Adroddiad Blynyddol 2020-21 y Pwyllgor yn tynnu sylw at sawl maes y byddai'r Pwyllgor yn parhau i gymryd diddordeb gweithredol ynddynt. Mae manylion am ystyriaeth y Pwyllgor o'r meysydd penodol hyn, y mae rhai ohonynt wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r adroddiad hwn, wedi'u hamlinellu isod:

- unrhyw gamau gweithredu allweddol, materion o bwys ac argymhellion allweddol sy'n deillio o'r archwiliad o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn ar gyfer 2020-21.

  Ymdrinnir â manylion hyn yn yr adran *Casgliadau a Sylwadau* o'r adroddiad hwn.

- gwerthusiad o'r gwersi a ddysgwyd o ymateb y Comisiwn i'r pandemig COVID-19 a llywodraethu ynghylch ffyrdd newydd o weithio

  Cafodd y manylion am y gwersi a ddysgwyd o'r pandemig a chynlluniau ar gyfer ffyrdd o weithio yn y dyfodol, a gyflwynwyd i'r Comisiwn, eu rhannu â'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn. Darparwyd diweddariadau hefyd mewn cyfarfodydd ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys trafodaeth ar "Adroddiad y Dyfodol" a gafodd ei gymeradwyo gan y Comisiwn ac a gyhoeddwyd ar y fewnrwyd. Croesawodd y Pwyllgor y ffyrdd yr oedd yr amrywiol feysydd gwaith yn cael eu dwyn ynghyd o dan un rhaglen "Ffyrdd o Weithio" drosfwaol gyda threfniadau llywodraethu cadarn. Ceir rhagor o fanylion am hyn yn Natganiad Llywodraethu'r Comisiwn.

- capasiti'r Comisiwn i gyflawni o fewn cyfyngiadau cyllidebol

  Roedd y Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Comisiwn yn parhau i fonitro risgiau o ran capasiti, a'r camau a gymerwyd i liniaru'r rhain gan gynnwys, ymhlith pethau eraill, y canlynol:

  - penderfyniadau ynghylch blaenoriaethu a defnydd hyblyg o adnoddau drwy gydol y flwyddyn gan Fwrdd Gweithredol y Comisiwn, wedi'u llywio gan drafodaethau gan y Tîm Arwain (sy'n cynnwys pob Pennaeth Gwasanaeth) – roedd hyn yn rhannol mewn ymateb i effaith y pandemig a'r pwysau ar grwpiau penodol o staff, a

  - cwblhau cam cyntaf Adolygiad Capasiti pellach, ac un o'r canlyniadau ohono oedd adolygiad o gynllunio gwasanaethau.

    Mae'r Comisiwn hefyd wedi datblygu Cynllun Cyflawni Corfforaethol, a chyflwynwyd manylion amdano i'r Pwyllgor gan y Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd ym mis Chwefror 2022. Mae'r Pwyllgor yn croesawu, yn ogystal ag egluro blaenoriaethau, a chyfrifoldeb ac atebolrwydd am gyflawni, y dylai hyn hwyluso aliniad gwell o ran cynllunio gwasanaethau â chylch y gyllideb.

- Seiberddiogelwch

  Mae'r Pwyllgor wedi parhau i ganolbwyntio'n fanwl ar drefniadau seiberddiogelwch yn ystod y flwyddyn, yn enwedig o ystyried y dirwedd fygythiadau sy'n newid yn barhaus, a'r cynnydd yn nifer yr ymdrechion o ran ymosodiadau seiber a gyfeiriwyd at y Senedd yn ystod y pandemig. Mae wedi croesawu'r adroddiadau rheolaidd a chynhwysfawr ar sicrwydd yn yr agwedd hanfodol hon ar lywodraethu a rheoli risg ac mae'n annog ffocws parhaus ar liniaru'r bygythiadau. Ymdrinnir â manylion pellach hyn yn yr adran *Casgliadau a Sylwadau* o'r adroddiad hwn.

**20.** Yn ogystal â busnes ffurfiol y Pwyllgor, roedd yr aelodau hefyd yn cefnogi'r Comisiwn ar y canlynol yn ystod y flwyddyn:

- mynychu cyfarfod uwch-dîm rheoli i graffu ar y datganiadau sicrwydd a ddarparwyd gan bob Cyfarwyddwr a'u herio er mwyn llywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu (gweler yr adran *Casgliadau a Sylwadau* o'r adroddiad yma, o dan *Fframwaith sicrwydd* am ragor o fanylion); a

- recriwtio Cyfarwyddwr Adnoddau newydd.

**21.** Mae swyddogion y Comisiwn yn parhau i rannu gwybodaeth â'r Pwyllgor mewn amser real. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- lincs i drafodion ffurfiol y Senedd megis sesiynau craffu Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Phwyllgor Cyllid y Senedd, ynghyd ag adroddiadau Pwyllgor perthnasol ac ymatebion y Comisiwn;
- Papurau ac adroddiadau'r Comisiwn, megis y rhai sy'n ymwneud â dyfodol yr ystâd a ffyrdd o weithio yn y dyfodol;
- negeseuon i staff, gwahoddiadau i gyfarfodydd yr holl staff, a diweddariadau wythnosol ar weithgarwch y Comisiwn;
- manylion am adroddiad yr Athro Diana Stirbu ar Bŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd (adroddiad Stirbu), gan gynnwys papur briffio a gynhyrchwyd gan Wasanaeth Ymchwil y Comisiwn; a
- dosbarthu cylchlythyrau, adroddiadau a diweddariadau perthnasol a gyhoeddwyd gan gyrff megis Archwilio Cymru, y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth Cymru.

**22.** Ym mhob un o'i gyfarfodydd cyflwynir diweddariad ar lywodraethu a sicrwydd i'r Pwyllgor. Mae hyn yn cynnwys sicrwydd a diweddariadau pwysig ar ystod o faterion, megis:

- gweithgarwch sicrwydd ynghylch yr ymateb i’r pandemig a rhannu gwybodaeth mewn amser real am drefniadau parhad busnes gyda grŵp rhyng-seneddol;
- manylion am gyfranogiad yn Fforwm Penaethiaid Archwilio Mewnol Cymru (y sector cyhoeddus); a
- diweddariadau ar feysydd gwaith a gwmpesir gan y tîm Llywodraethu a Sicrwydd, megis casglu sicrwydd i lywio'r Datganiad Llywodraethu; llunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn; parhad busnes; diogelu data; a'r adolygiad o gynllunio gwasanaethau.

**23.** Roedd y Pwyllgor yn falch o nodi'r gwaith rhyng-seneddol ynghylch parhad busnes; yn ogystal â rhannu gwybodaeth â deddfwrfeydd eraill y DU ar ddull y Comisiwn o fapio sicrwydd (mae rhagor o fanylion am hyn wedi’u cynnwys yn yr adran *Casgliadau a Sylwadau* o'r adroddiad hwn o dan *Fframwaith sicrwydd*).

**24.** Mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael diweddariadau ar feysydd a ystyriwyd gan Bwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a'r Gweithlu y Comisiwn.

# 2. Casgliadau a Sylwadau

**25.** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu casgliadau a sylwadau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ynghylch ei raglen waith graidd. Mae manylion am sicrwydd y Pwyllgor mewn perthynas â meysydd eraill o weithgarwch y Comisiwn wedi'u cynnwys mewn rhannau eraill o'r adroddiad.

**26.** Mae cyfeiriad penodol hefyd at y sicrwydd sy'n ymwneud ag Etholiadau'r Senedd, yn enwedig ynghylch effaith Covid yn adran *Casgliadau'r* adroddiad hwn. Ceir rhagor o fanylion am y gweithgarwch sy'n ymwneud â hyn yn Adroddiad Blynyddol y Comisiwn.

## Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21 ac archwiliad allanol

**27.** Cefnogodd y Pwyllgor y gwaith o lunio Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2020-21, a oedd yn cynnwys rhoi cyngor ar y Datganiad Llywodraethu.

**28.** O ran naratif yr Adroddiad Blynyddol, roedd y Pwyllgor o'r farn bod hwn yn ddisgrifiad manwl a thrylwyr iawn o'r cyflawniad yn erbyn nodau strategol y Comisiwn. Mewn trafodaethau mewn cyfarfod Pwyllgor ynghylch lefel y manylder yn yr adroddiad, a'i ddarllenwyr, cydnabu'r Pwyllgor yr adborth cadarnhaol a gafwyd gan Bwyllgor Cyllid a Phwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ar eu gwaith craffu ar adroddiadau blaenorol. Croesawodd y Pwyllgor hefyd gynlluniau ar gyfer cyflwyno adroddiadau yn y dyfodol mewn fformat mwy rhyngweithiol.

**29.** Croesawodd y Pwyllgor gyflwyniad cynnar o'r Adroddiad ar y Datganiadau Ariannol (ISA260) a'r Llythyr Rheoli. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyfeiriad at un camddatganiad gwerth isel nas cywirwyd ar gyfer yr hyn yr oedd Archwilio Cymru yn ei ystyried yn gamddosbarthiad o wariant cyfalaf. Nodwyd hyn yn hwyr yn y broses archwilio ac roedd swyddogion y Comisiwn o'r farn ei fod yn anghyson â dosbarthiad blaenorol y buddsoddiad yn yr ystâd. Trafodwyd y gwahaniaeth barn hwn yn fanwl yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mehefin 2021 pan ddiolchodd y Cadeirydd i'r ddwy ochr am y modd cwrtais a diplomyddol yr ymdriniwyd â'r mater.

**30.** Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn archwilio ddiamod ar y datganiadau ariannol ym mis Mehefin 2021.

**31.** Oherwydd y pandemig, dyma'r ail flwyddyn i'r archwiliad o'r cyfrifon gael ei gwblhau o bell. Nododd y Pwyllgor sut yr oedd cydweithrediad swyddogion ac

archwilwyr wedi hwyluso proses archwilio esmwyth arall, ar adeg pan oedd y ddau sefydliad yn parhau i ymdrin â phwysau ychwanegol a achoswyd gan y pandemig. Mae hyn wedi arwain at ganmoliaeth gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus y Senedd ynghylch perfformiad ariannol y Comisiwn a chan ei Bwyllgor Cyllid ar sicrhau ystwythder yn ei waith cynllunio ariannol, yn enwedig yn wyneb yr ansicrwydd sylweddol a'r pwysau allanol y mae'n parhau i'w hwynebu.

**32.** Roedd y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r berthynas waith gref barhaus rhwng yr archwilwyr allanol a'r archwilwyr mewnol drwy gyfrwng y 'protocol cydweithio'. Mae'r protocol, sy'n cael ei adolygu a'i gyflwyno i'r Pwyllgor yn flynyddol, yn cynnwys manylion am sut mae'r archwilwyr allanol yn dibynnu ar waith archwilio mewnol.

**33.** Mae'r Pwyllgor yn falch bod archwilwyr, yn seiliedig ar drefniadau llwyddiannus y blynyddoedd blaenorol, wedi gallu cynnal gwaith archwilio interim yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2021, cyn yr archwiliad llawn ym mis Mai.

**34.** Bydd y Pwyllgor yn parhau i gydweithio'n agos â'r archwilwyr allanol er mwyn sicrhau bod y prif systemau a rheolaethau ariannol a'r gweithdrefnau sy'n ategu'r broses o baratoi'r cyfrifon yn parhau i fod yn gadarn.

**35.** Croesawodd y Pwyllgor olwg cynnar ar Ddatganiad Llywodraethu drafft ar gyfer 2020-21 ym mis Ebrill 2021 ac roedd o'r farn bod hwn yn ddatganiad cadarn ac yn adlewyrchiad cywir a gonest o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Comisiwn dros flwyddyn ryfeddol arall. Roedd y Pwyllgor wedi cael diweddariadau ar feysydd a nodwyd yn Natganiad Llywodraethu'r flwyddyn flaenorol yn ystod y flwyddyn drwy adrodd ar risgiau corfforaethol, rheolaeth ariannol ac adroddiadau archwilio mewnol y Comisiwn.

**36.** Croesawodd y Pwyllgor hefyd olwg gynnar ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon drafft, gan gynnwys Datganiad Llywodraethu drafft ar gyfer 2021-22 yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2022.

## Archwilio mewnol

**37.** Caiff gwasanaeth Archwilio Mewnol y Comisiwn ei reoli gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, sy'n gyfrifol am ganlyniadau'r holl archwiliadau mewnol. Cefnogir y rôl gan un archwilydd mewnol cymwys arall ar sail rhan amser a chymorth allanol, a ddarperir ar hyn o bryd gan TIAA sy'n helpu i sicrhau annibyniaeth y gwaith archwilio. Mae'n bleser gan y Pwyllgor nodi'r ymgysylltiad

cadarnhaol parhaus gan reolwyr â'r tîm archwilio mewnol a gweithrediad amserol ac adeiladol yr argymhellion.

**38.** Yn dilyn cwpl o flynyddoedd cythryblus pan fu'n rhaid ailffocysu rhywfaint o waith archwilio mewnol i roi sicrwydd ynghylch ymateb y Comisiwn i'r pandemig, roedd y Pwyllgor yn falch o weld rhaglen archwilio fwy traddodiadol yn dychwelyd. Mae'r Pwyllgor yn adolygu pob adroddiad archwilio ffurfiol. Rhestrir y rhai a adolygwyd yn ystod y flwyddyn isod. Cafodd y Pwyllgor hefyd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran y ffordd y mae rheolwyr yn gweithredu argymhellion archwilio.

- Rheoli Asedau TGCh (archwiliad ffurfiol – sicrwydd sylweddol)
- Seiberddiogelwch (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)
- Y Gyflogres (archwiliad ffurfiol – sicrwydd cymedrol)
- Treuliau Aelodau 2021 (archwiliad ffurfiol - sicrwydd sylweddol)

**39.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu ffocws parhaus ar gynnal cydbwysedd priodol o archwiliadau ar draws gwasanaethau a chyfarwyddiaethau, megis adolygiadau o'r gwasanaeth Llyfrgell a chydymffurfiaeth â'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol sy'n mynd rhagddynt.

**40.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn croesawu'r ffocws parhaus ar reolwyr yn gweithredu argymhellion archwiliadau mewnol. Cafwyd sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bod yr holl argymhellion o flynyddoedd blaenorol wedi'u cwblhau a bod argymhellion o 2020-21 naill ai wedi'u cwblhau neu ar waith.

**41.** Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol Adroddiad Blynyddol ar Dwyll i'r Pwyllgor a dywedodd na ddygwyd unrhyw achosion o weithgarwch twyllodrus gwirioneddol neu amheus i sylw'r Archwiliad Mewnol yn 2021-22. Nid oedd unrhyw ddatgeliadau chwythu'r chwiban mewnol ychwaith.

**42.** Mae Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn nodi y gall y Swyddog Cyfrifyddu gymryd sicrwydd cymedrol bod y trefniadau i sicrhau bod gwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, wedi'u cynllunio a'u cyflawni'n effeithiol. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr adroddiad yn asesiad da o waith a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ac o effeithiolrwydd yr argymhellion.

**43.** Cadarnhaodd yr adroddiad hwnnw hefyd gydymffurfiad â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r Siarter Archwilio Mewnol.

**44.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol bod lefel yr adnoddau a ymrwymwyd i'r Cynllun Archwilio yn parhau i fod yn ddigonol, gan nodi hefyd y gwydnwch ychwanegol a ddarperir gan aelod o'i dîm yn dod yn gwbl gymwys. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael sicrwydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ac yn parhau i fod yn fodlon bod annibyniaeth y rôl yn cael ei diogelu heb unrhyw wrthdaro buddiannau wrth gynnal yr archwiliadau.

**45.** Mae’r Pwyllgor hefyd yn croesawu ymrwymiad y Pennaeth Archwilio Mewnol i'w ddatblygiad proffesiynol parhaus ac i fod yn aelod o rwydweithiau proffesiynol, ac yn benodol, ei ymgysylltiad parhaus agos â deddfwrfeydd eraill y DU. Eleni, mae hyn wedi cynnwys rhannu gwybodaeth am ddull y Comisiwn o fapio sicrwydd a chynnal yr Asesiad Allanol o Ansawdd ar gyfer Adran Archwilio Mewnol Cynulliad Gogledd Iwerddon.

## Rheoli risg

### Prosesau adolygu ac adrodd

**46.** Parhaodd y Pwyllgor i fonitro effeithiolrwydd prosesau rheoli risg yn ystod y flwyddyn a thrafodwyd hyn yn fanwl yn ei gyfarfod ym mis Ebrill 2021. Mae'n parhau i fod yn fodlon bod trefniadau ar gyfer nodi, rheoli, adolygu ac adrodd ar risgiau ar draws y Comisiwn yn gadarn ac wedi'u gwreiddio. Cydnabu’r Pwyllgor hefyd ymdrechion parhaus y Rheolwr Risg a’r rhwydwaith o Hyrwyddwyr Risg i gadw ffocws ar reoli risgiau ar bob lefel.

**47.** Mae'r Pwyllgor yn croesawu adolygiad y Comisiwn o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn, ynghyd ag ymarferion rheolaidd edrych tua’r gorwel ac ansawdd uchel cyson y broses adrodd am risg.

**48.** Mae rhagor o fanylion am y trefniadau ar gyfer risgiau a'u rheoli ar gael yn Natganiad Llywodraethu'r Comisiwn.

### Proffil risg

**49.** Yn ogystal ag adolygu Cofrestr Gryno o Risgiau Corfforaethol y Comisiwn ym mhob cyfarfod, cynhaliodd y Pwyllgor hefyd adolygiadau manwl o rai risgiau unigol lle roedd uwch-swyddogion yn gallu rhoi sicrwydd pellach i'r Pwyllgor ynghylch eu rheolaeth effeithiol. Mae rhagor o fanylion am y risgiau corfforaethol, a sut y maent wedi newid yn ystod y flwyddyn, wedi'u cynnwys yn adran Proffil Risg Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn.

**50.** Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gymryd diddordeb brwd mewn cydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data ac wedi croesawu'r diweddariadau a ddarparwyd yn y

Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Mae'r Adroddiad Blynyddol gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO) yn atgyfnerthu ymhellach sicrwydd bod risgiau gwybodaeth yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer gweithio gyda'r tîm Llywodraethu Gwybodaeth i gyflawni gwaith â blaenoriaeth nawr bod adnoddau yn y maes hwn wedi cynyddu. Yn ystod 2021-22, nid oedd unrhyw achosion o golli data personol lle'r oedd yn ofynnol rhoi gwybod i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**51.** Ar ddiwedd y cyfnod adrodd, roedd gan bedwar o'r naw risg corfforaethol sgôr difrifoldeb 'coch'. Cred y Pwyllgor, ynghyd â seiberddiogelwch, mai un o'r risgiau mwyaf sylweddol o hyd fydd yr un sy'n ymwneud ag effaith newid gwleidyddol, deddfwriaethol a chyfansoddiadol, a'r ymatebion iddynt, ochr yn ochr â chyflawni blaenoriaethau strategol uchelgeisiol y Comisiwn o fewn cyfyngiadau ariannol.

## Seiberddiogelwch

**52.** Nododd y Pwyllgor y gwaith sylweddol sy’n cael ei wneud i liniaru risgiau seiberddiogelwch yn barhaus, ac mae’n croesawu’r sicrwydd y mae’n ei gael drwy gyflwyno adroddiadau risg ac archwilio mewnol a’r sesiynau briffio rheolaidd gan uwch-swyddogion TGCh, sy’n mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor ddwywaith y flwyddyn.

**53.** Mae'r Pwyllgor wedi croesawu’r gwaith o ddatblygu Adroddiad Sicrwydd Seiberddiogelwch trylwyr a manwl iawn y bydd y tîm TGCh nawr yn ei gynhyrchu bob chwarter. Rhannwyd drafft o'r adroddiad gyda'r Pwyllgor ar gyfer sylwadau a bydd yn cael ei fireinio ar sail adborth. Bydd seiberddiogelwch hefyd yn aros ar y cynllun archwilio mewnol blynyddol.

**54.** Mae’r Pwyllgor yn cydnabod y bu heriau penodol i TGCh yn ystod y pandemig gydag amgylchedd allanol cynyddol elyniaethus o ran bygythiadau seiberddiogelwch. Mae’r camau a gymerwyd yn flaenorol i ddiogelu’r seilwaith TGCh wedi parhau i ddiogelu’r sefydliad ac wedi galluogi’r sefydliad i gadw i fyny â’r bygythiadau newidiol.

**55.** Mae gwasanaeth TGCh y Comisiwn wedi cadarnhau na fu unrhyw ddigwyddiadau seiberddiogelwch a arweiniodd at doriadau data yn 2021-22.

**56.** Anogodd y Pwyllgor y Comisiwn i barhau i ganolbwyntio’n briodol ar seiberddiogelwch, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth Aelodau a’u staff cymorth.

## Fframwaith sicrwydd

**57.** Mae Fframwaith Sicrwydd y Comisiwn yn cynnwys proses gadarn ar gyfer casglu sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu ar bob lefel ar draws y Comisiwn. Mae'r broses yn cynnwys mapio'r ffynonellau sicrwydd gweithredol, corfforaethol ac annibynnol yn erbyn prosesau, risgiau a systemau mewnol ar gyfer pob maes gwasanaeth. Mae hyn yn seiliedig ar fodel 'tair llinell amddiffyn' Trysorlys EM ac mae'n dangos cryfder cyffredinol ffynonellau sicrwydd y Comisiwn ac yn amlygu gwendidau posibl. Adolygir hyn yn rheolaidd i ddilysu trefniadau.

**58.** Defnyddir y mapiau sicrwydd i lywio'r gwaith o ddrafftio datganiadau sicrwydd lefel gwasanaeth blynyddol, a ddefnyddir yn eu tro i lywio datganiadau sicrwydd gan bob Cyfarwyddwr. Defnyddir y wybodaeth hwn wedyn i lywio Datganiad Llywodraethu'r Swyddog Cyfrifyddu.

**59.** Bob blwyddyn mae'r Pwyllgor hefyd wedi cael ei gyflwyno â manylion y meysydd y mae wedi ymdrin â hwy ar draws y tair llinell amddiffyn sy'n atgyfnerthu'r farn o ran sylw â chydbwysedd priodol.

**60.** Darparwyd haen arall o sicrwydd drwy bresenoldeb Cadeirydd y Pwyllgor hwn ac un aelod arall yng nghyfarfod yr uwch-dîm rheoli i graffu a herio'r datganiadau sicrwydd a ddarparwyd gan bob Cyfarwyddwr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried drafftiau cynnar o'r Datganiad Llywodraethu ac yn cynghori ar ei gynnwys.

# 3. Edrych Tua'r Dyfodol

**61.** Er bod y Pwyllgor yn cydnabod cryfder trefniadau llywodraethu, risg, rheolaeth a sicrwydd y Comisiwn, rhaid i'r rhain barhau i ddatblygu er mwyn iddynt fod yn effeithiol o hyd. Yn ogystal â’i weithgarwch rheolaidd, bydd y Pwyllgor yn cymryd diddordeb gweithredol yn y meysydd a ganlyn yn ystod 2022-23:

- monitro cynnydd y Cynllun Cyflawni Corfforaethol newydd;
- cynllunio tymor canolig ar gyfer y rhaglen Ffyrdd o Weithio, sy'n ymgorffori'r strategaeth ystadau;
- diweddariadau rheolaidd ar Newid Cyfansoddiadol y DU / Diwygio'r Senedd;
- strategaethau cyfathrebu ac ymgysylltu'r Comisiwn; a
- datgarboneiddio fel yr amlinellir yn Strategaeth Carbon Niwtral y Comisiwn.

**62.** Mae angen i'r Pwyllgor hefyd edrych ymlaen a rhagweld problemau, heriau a risgiau a all godi yn y dyfodol, yn ychwanegol at y rhai a nodwyd yn y flaenraglen waith. Er mwyn helpu i lywio hyn, bydd swyddogion a’r tîm clercio yn parhau i ddosbarthu diweddariadau perthnasol a bydd y Cadeirydd yn parhau i gyfarfod bob pythefnos gyda’r Pennaeth Llywodraethu a Sicrwydd, a swyddogion eraill yn ôl yr angen. Mae'r Pwyllgor yn awyddus o hyd i fynd ar drywydd cyfleoedd i weithio gyda Bwrdd Gweithredol y Comisiwn a swyddogion eraill mewn meysydd lle gall ychwanegu gwerth.

# 4. Casgliadau

**63.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod digon o dystiolaeth i roi sicrwydd i'r Swyddog Cyfrifyddu a'r Comisiwn ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol yr amgylchedd risg, rheolaeth a llywodraethu. Yn gyffredinol, mae lefelau sicrwydd yn y Comisiwn yn parhau i fod yn uchel. Mae'r ffynonellau sicrwydd yn gadarn ac yn ddibynadwy, fel y dangosir gan y Fframwaith Sicrwydd, archwiliad allanol o'r cyfrifon, a'r gwaith parhaus a'r Farn a'r Adroddiad Blynyddol gan yr Archwilwyr Mewnol.

**64.** Sylwodd y Pwyllgor sut y parhaodd y Comisiwn i ddangos safonau uchel o lywodraethu drwy gydol y pandemig, er gwaethaf yr amgylchiadau heriol.

**65.** Roedd trefniadau llywodraethu a rheoli risg effeithiol yn arbennig o bwysig yn ystod blwyddyn pan oedd cymaint o ansicrwydd o ran ymateb i'r newidiadau niferus ac weithiau cyflym i Reoliadau COVID-19. Mae'n bleser gan y Pwyllgor adrodd bod y Comisiwn wedi parhau i ddangos safonau llywodraethu uchel yn ystod y cyfnod hwn a'i fod wedi goresgyn yr heriau ychwanegol a achoswyd gan y pandemig.

**66.** Roedd darparu etholiad yn effeithiol a throsglwyddo'n llwyddiannus i'r Chweched Senedd, gan gynnwys yr agoriad swyddogol yn ystod y pandemig, yn dipyn o gamp, yn enwedig o ystyried yr ansicrwydd ynghylch dyddiad yr etholiad a rheoliadau COVID-19. Roedd cyfnod diddymu sylweddol is hefyd a oedd â goblygiadau o ran paratoi canllawiau amserol ar gyfer Aelodau o'r Senedd. O ran llywodraethu, nododd y Pwyllgor fod eglurder ynghylch cyfrifoldebau a gwneud penderfyniadau a gwaith cynllunio helaeth, a oedd yn cynnwys senarios manwl a gwaith cynllunio wrth gefn, yn ffactorau allweddol o ran cyflawni'n llwyddiannus. Hysbyswyd y Pwyllgor am y cynnydd o ran cynllunio a rheoli risgiau cysylltiedig drwy ddiweddariadau cynhwysfawr mewn cyfarfodydd ffurfiol a thu allan i'r pwyllgor. Roedd hyn yn cynnwys diweddariadau manwl ar y ddarpariaeth a gwersi a ddysgwyd.

**67.** Mae'r Pwyllgor yn diolch i'r Prif Weithredwr a'r Clerc a'i staff am eu hagwedd adeiladol a chydweithredol at waith y Pwyllgor dros y flwyddyn ddiwethaf. Drwy gydol y cyfnod mae'r Pwyllgor wedi parhau i fwynhau perthnasoedd gwaith da iawn gyda staff y Comisiwn ac wedi canfod eu bod yn agored ac yn barod i herio. Mae'r cymorth a ddarperir gan y tîm clercio yn parhau i gael ei werthfawrogi'n fawr gan aelodau'r Pwyllgor.

# Atodiad 1: Cylch Gorchwyl Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd

Mae Comisiwn y Senedd yn sefydlu Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd i'w gynorthwyo â'i gyfrifoldebau dros faterion rheoli risg a llywodraethu. Ei rôl yw adolygu pa mor gynhwysfawr, dibynadwy a chywir yw'r sicrwydd a geir ac a yw'r sicrwydd hwn yn diwallu anghenion Comisiwn y Senedd a'r Swyddog Cyfrifyddu.

## AELODAETH

**1.** Dyma Aelodau **Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd**:

- **Ken Skates**, AS, Comisiynydd;
- Tri chynghorydd annibynnol: **Robert Evans** (Cadeirydd); **Ann Beynon**; a **Dr Aled Eirug**.

## ADRODD

**2.** Bydd y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiad i'r **Comisiwn** drwy'r **Swyddog Cyfrifyddu** ar ôl bob cyfarfod. Caiff cofnodion y cyfarfodydd eu cyhoeddi ar wefan y Senedd.

**3.** Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn mynd i gyfarfod y Comisiwn ym mis Gorffennaf ac yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu, a fydd wedi'i amseru i gynorthwyo â’r broses o orffen y cyfrifon a’r Datganiad Llywodraethu. Bydd yr Adroddiad Blynyddol yn crynhoi casgliadau'r Pwyllgor ar y gwaith a wnaeth yn ystod y flwyddyn.

## CYFRIFOLDEBAU

**4.** Bydd y Pwyllgor yn cynghori'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu ynghylch:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethu;
- y Datganiad Llywodraethu;
- polisïau cyfrifyddu, cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y Comisiwn, gan gynnwys y broses o adolygu'r cyfrifon cyn eu cyflwyno i'w harchwilio, nifer y camgymeriadau a nodwyd, a llythyr yn cynnwys sylwadau'r rheolwyr i'r Archwilydd Cyffredinol;

- y gwaith archwilio mewnol ac allanol sydd wedi'i drefnu, a'r canlyniadau;
- a yw ymateb y rheolwyr i'r materion a nodwyd mewn gwaith archwilio yn ddigonol, gan gynnwys y llythyr rheoli ar gyfer gwaith archwilio allanol gan Archwilio Cymru;
- sicrwydd i'r Comisiwn o ran rheoli risg a llywodraethu corfforaethol;
- cynigion i dendro ar gyfer gwasanaethau Archwilio Mewnol neu i brynu gwasanaethau nad ydynt yn wasanaethau archwilio gan gontractwyr sy'n darparu gwasanaethau archwilio;
- polisïau gwrth-dwyll, prosesau chwythu'r chwiban, a'r trefniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig.

**5.** Bydd y Pwyllgor yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun o bryd i'r gilydd ac yn cyflwyno adroddiad ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiwn yn ei Adroddiad Blynyddol.

### HAWLIAU

**6.** Yn amodol ar gyllidebau y cytunir arnynt gan y Comisiwn, caiff y Pwyllgor, gyda chymeradwyaeth y Swyddog Cyfrifyddu:

- gyfethol aelodau ychwanegol am gyfnod o hyd at flwyddyn i ddarparu sgiliau, gwybodaeth a phrofiad arbenigol;
- caffael cyngor ad-hoc arbenigol y telir amdano gan y sefydliad.

### MYNEDIAD

**7.** Bydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd Archwilio Cymru ryddid i siarad yn gyfrinachol â Chadeirydd y Pwyllgor ar unrhyw adeg.

### CYFARFODYDD

**8.** Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith bob blwyddyn. Caiff y Cadeirydd gynnull cyfarfodydd ychwanegol yn ôl yr angen.

**9.** Rhaid i o leiaf ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol i sicrhau cworwm.

**10.** Fel arfer, bydd y Swyddog Cyfrifyddu, y Cyfarwyddwr Cyllid, y Cyfarwyddwr Adnoddau, y Rheolwr Risg a Llywodraethu, y Pennaeth Archwilio Mewnol a chynrychiolydd o Archwilio Cymru yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

**11.** Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddog arall fod yn bresennol i'w gynorthwyo â'i drafodaethau ar unrhyw fater penodol.

**12.** Caiff y Pwyllgor ofyn i unrhyw rai, neu i bawb, sy'n mynd i'r cyfarfodydd fel arfer ond nad ydynt yn aelodau, adael y cyfarfod er mwyn gallu cynnal trafodaeth agored a gonest ar faterion penodol.

**13.** Caiff y Comisiwn neu'r Swyddog Cyfrifyddu ofyn i'r Pwyllgor drefnu cyfarfodydd ychwanegol i drafod materion penodol y mae am gael cyngor y Pwyllgor yn eu cylch.

## GOFYNION GWYBODAETH

**14.** Bydd y Pwyllgor yn cael y wybodaeth a ganlyn ym mhob cyfarfod:

- adroddiad yn crynhoi unrhyw newidiadau sylweddol yng Nghofrestr Risgiau'r Comisiwn;
- adroddiad cynnydd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol yn crynhoi:
  - y gwaith a gwblhawyd (o'i gymharu â'r gwaith y bwriadwyd ei wneud);
  - y materion allweddol sy'n codi o'r gwaith Archwilio Mewnol;
  - ymateb rheolwyr i argymhellion adroddiadau archwilio;
  - newidiadau i'r cynllun archwilio blynyddol;
  - materion yn ymwneud ag adnoddau sy'n effeithio ar y gallu i roi'r cynllun Archwilio Mewnol ar waith;
- adroddiad cynnydd gan gynrychiolydd Archwilio Cymru yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r casgliadau sy'n deillio ohono;
- adroddiadau sicrwydd y rheolwyr; ac
- adroddiadau ar reoli digwyddiadau/achosion mawr, achosion a fu bron a digwydd a'r gwersi a ddysgwyd.

**15.** Pan fo hynny'n briodol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn cael:

- cynigion ar gyfer cylch gorchwyl archwiliadau mewnol/y siarter archwilio mewnol;
- y strategaeth archwilio mewnol;
- Barn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol;
- adroddiadau sicrwydd ansawdd ar y swyddogaeth archwilio mewnol;
- Strategaeth Archwilio flynyddol Archwilio Cymru;
- adroddiad ISA 260 Archwilio Cymru i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- cyfrifon drafft y Comisiwn;
- y Datganiad Llywodraethu drafft:
- Adroddiad Blynyddol yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth;
- adroddiad ar unrhyw newidiadau i bolisïau cyfrifyddu;
- llythyr rheoli Archwilio Cymru;
- adroddiad ar unrhyw gynigion i dendro am swyddogaethau archwilio;
- adroddiad ar gydweithredu rhwng archwilwyr mewnol ac allanol;
- Strategaeth Rheoli Risg y Comisiwn;
- adroddiadau ar dorri rheolau gwybodaeth a diweddariadau rheolaidd ar seiberddiogelwch;
- manylion am reoli'r portffolio o raglenni/prosiectau newid allweddol;
- crynodeb o'r achosion o wyro oddi wrth y gweithdrefnau arferol; a
- gwybodaeth arall o berthnasedd neu ddiddordeb posibl, gan gynnwys:
    - Papurau neu adroddiadau'r Comisiwn ar faterion o bwysigrwydd strategol;
    - diweddariadau ar feysydd a ystyriwyd gan Bwyllgor Cynghori ar Daliadau, Ymgysylltu a’r Gweithlu y Comisiwn;

- adroddiadau cenedlaethol fel a phryd y cânt eu cynhyrchu gan gyrff archwilio; a
- diweddariadau ddwywaith y flwyddyn gan Archwilio Cymru i rannu gwybodaeth am astudiaethau ac adroddiadau sector cyhoeddus ehangach ac i grynhoi sut y gallai'r rhain effeithio ar y Comisiwn, neu fod o ddiddordeb iddo.